

<b>Presennol:</b>	Huw Jones Elan Closs Stephens John Davies Aled Eirug Guto Harri Hugh Hesketh Evans Marian Wyn Jones Siân Lewis	(Cadeirydd) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
<b>Staff S4C:</b>	Ian Jones Dafydd Rhys Elin Morris Phil Williams Bethan C. Williams	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cynnwys) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
<b>Ymddiheuriadau:</b>	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion cyfarfod 387** (a gynhaliwyd ar 14.05.15)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 387

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion isod.

Adroddodd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at bob Aelod Seneddol yng Nghymru yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol yn cynnig eu cyfarfod i drafod gwaith S4C. Roedd sawl un eisoes wedi ymateb.

Roedd wedi cynnal cyfarfod cadarnhaol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Stephen Crabb, a chafwyd cyfle i'w ddiweddarau am waith S4C a'r paratodau ar gyfer y broses ariannu digonol ac adnewyddu Siartr y BBC.

Nododd ei fod wedi derbyn ymateb gan Ysgrifennydd Gwladol DCMS, John Whittingdale, yn nodi ei fod yn awyddus i gyfarfod unwaith y bydd y dyddiadur yn caniatáu.

Roedd cyfarfod hefyd wedi ei gynnal gyda Chris Bryant, a chafwyd cyfle i bwysleisio prif negeseuon S4C.

[**Crynodeb:** Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyswllt parhaus gyda'r DCMS wrth iddynt baratoi ar gyfer yr Adolygiad Gwariant . Mae hyn ynghylch yr incwm a ddaw yn uniongyrchol gan y DCMS ac nid cyfanswm incwm cyhoeddus S4C.]

## 4.2

### **Adroddiad Blynyddol**

Cyflwynodd y Cadeirydd ddrafft pellach o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer ystyriaeth yr Aelodau a chafwyd trafodaeth am nifer o welliannau i'r Adroddiad fel a ganlyn.

Awgrymwyd addasu trefn cyflwyniad y Cadeirydd er mwyn pwysleisio'r elfennau cadarnhaol ar ddechrau'r cyflwyniad.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am naratif y cyflwyniadau a nododd y Cadeirydd y byddai'n ystyried negeseuon yr aelodau ar gyfer ei gyflwyniad.]

Cyfeiriwyd at y map sy'n nodi dosraniad daearyddol gwariant cynnwys S4C gan nodi fod De Cymru wedi'i rannu i'r dwyrain a'r gorllewin tra roedd y Gogledd yn un rhan. Esboniwyd fod y rhaniad hwn yn adlewyrchu rhanbarthau BARB a bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn y Gogledd yn y Gogledd Orllewin. Nodwyd nad oedd targedau ar gyfer comisiynu daearyddol a bod cynnwys yn cael ei gomisiynu ar sail y syniadau gorau sy'n cael eu cyflwyno.

Nododd y Cadeirydd fod arddull yr adroddiad cynnwys yn fwy ansoddol eleni a'i fod wedi ei lunio er mwyn cyflwyno asesiad perfformiad yr Awdurdod yn gliriach yn hytrach na chreu cofnod manwl o'r rhaglenni a ddarledwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd yr Awdurdod yn awyddus i nodi fod y gwasanaeth ar y cyfan yn parhau i wella, ond bod her yn parhau o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r arlwy ymysg y gynulleidfa.

Roedd crynodeb o berfformiad y flwyddyn wedi ei gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC yn eu cyfarfod ym mis Mai, ac y byddai'r Adroddiad cyflawn yn cael ei gynnwys ym mhapurau Pwyllgor Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth yr wythnos nesaf. Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor bydd y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwr dros Gymru yn trafod datganiad yr Ymddiriedolaeth i'r Adroddiad.

Cymeradwywyd yr Adroddiad i'w gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth a'r DCMS.

## 4.3

### **Cyfarfodydd S4C/BBC**

Nododd y Cadeirydd fod cyfarfodydd cyfeillgar ac adeiladol wedi'u cynnal gyda Rona Fairhead ac aelodau Ymddiriedolaeth y BBC.

Cynhaliwyd un cyfarfod gyda'r Ymddiriedolaeth, HJ, AE a PW i gyflwyno'r Asesiad Perfformiad a chyfarfod pellach gyda Rona Fairhead, HJ, ECS, PW a

swyddogion yr Ymddiriedolaeth i drafod y camau nesaf yn y berthynas rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth a pharatoadau ar gyfer y drafodaeth am adnewyddu'r siarter. Roedd y cyfarfodydd yn rhai cadarnhaol ac mae swyddogion am barhau i drafod y camau nesaf yn y berthynas rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth.

Awgrymwyd y gallai ansicrwydd am ddyfodol yr Ymddiriedolaeth effeithio ar y trafodaethau hyn. Esboniwyd y byddai swyddogion yn ystyried nifer o scenarios posibl o ran dyfodol y berthynas gan fonitro'r sefyllfa a datblygiadau megis cyhoeddi Papur Gwyrdd ac ymgynghoriad ar ddyfodol y BBC a ffi'r drwydded.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am yr arwyddocâd i S4C o unrhyw newid i Ymddiriedolaeth y BBC.]

#### 5. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am nifer o'r rhaglenni a ddarledwyd yn ystod y mis gan gynnwys Parch, Patagonia, meysydd Adloniant a Ffeithiol, Eisteddfod yr Urdd a rhaglenni'r Etholiad Cyffredinol.]

#### 6. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd Adroddiad y Wifren Gwylwyr a'r Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth.

#### **ADRODDIADAU PWYLLGORAU:**

#### 7. **Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli**

Cyflwynodd John Davies grynodeb ysgrifenedig o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2015.

Esboniwyd mai prif bwrpas y cyfarfod oedd derbyn diweddariad ar y trafodaethau Cydleoli a chyflawniad yr amodau yr oedd yr Awdurdod wedi eu gosod. Ers cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mai, roedd nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng swyddogion S4C a'r BBC i drafod yr amodau a materion eraill.

[**Crynodeb:** Cafwyd cyfle i drafod rhai o'r materion yn deillio o'r crynodeb ysgrifenedig gan gynnwys y posibilrwydd o oedi, yr arbedion arfaethedig ac amserlen arwyddo'r dogfennau cyfreithiol.]

Diolchwyd i JD am gyflwyno'r diweddariad a phenderfynwyd cynnal cyfarfod arall o'r Pwyllgor Craffu pan yn briodol i adrodd yn ôl ar gyflawniad yr amodau ac yn ogystal i dderbyn diweddariad ar y cynllun Adleoli.

**MATERION ERAILL:**

8. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod tan fis Gorffennaf 2016 er gwybodaeth.

9. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Iau 9 Gorffennaf 2015 yng Nghaerdydd